



Cynnydd Cam 3 – Ardaloedd plannu a wal gadw

Cynnydd y Prosiect a Gwaith ar y Gweill

Er fod y tywydd wedi tarfu rhywfaint arnom, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar Gamau 1, 2 a 3. Rydym wedi cwblhau'r gwaith cloddio a draeniad, ac yn awr yn gosod cyrbau a cherrig palmant ar Sandy Lane. Drwy gydol mis Mawrth byddwn yn parhau gyda'r gwaith cyrbau a cherrig palmant, gosod lloches bws newydd are Gam 3 (Sandy Lane) a bydd gwaith cerrig palmant yn parhau o amgylch y senotaff yng Ngham 1.

Cau Ffordd Dros Dro a Rheoli Traffig –

Caiff Heol Cas-gwent yn ymuno â Heol yr Eglwys ei chau dros dro am tua 6 wythnos yn dechrau ganol Mawrth 2020. Bydd hyn ar sail 24 awr. Tra bydd y ffordd ar gau, byddwn yn cwblhau gosod pibelli, gwasanaeth, draeniad, gosod cerrig a gwaith ailadeiladu i'r lôn cerbyd yng Nghamau 4 a 5. Bydd llwybr gwyro yn ei le gydag arwyddion clir (bydd copi o hyn ar gael ar ein gwefan community.alungriffiths.co.uk). Bydd system goleuadau traffig dwy-ffordd dros dro yn ei lle rhwng Heol yr Eglwys a Sandy Lane pan fydd y ffordd are gau dros dro.

Griffiths yn ymweld ag Ysgol Leol



Ymwelodd ein masgot Diogelwch Sally Safe Steps ag Ysgol Gynradd Castle Park ychydig cyn hanner tymor i gyflwyno neges bwysig ond hwyl i ddisgyblion am bwysigrwydd peidio chwarae neu fynd ar safleoedd adeiladu.

Sesiynau Galw Heibio

Cymunedol Os hoffech wybod mwy am ein gwaith yng Nghil-y-coed, dewch draw i un o'n sesiynau Galw Heibio Cymunedol lle bydd staff are gael i sgwrsio ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a all fod gennych. Cynhelir y tair sesiwn galw heibio nesaf fel sy'n dilyn:

Dydd Mawrth 17 Mawrth 10am – 12pm

Dydd Mawrth 7 Ebrill 10am – 12pm

Dydd Mawrth 28 Ebrill 10am – 12pm

Cronfa Prosiect Cymunedol – Fel y dywedwyd mewn bwletinau blaenorol, mae ein Pwyllgor Achosion Da yn gwahodd grwpiau cymunedol a sefydliadau elusennol yng Nghil-y-coed i gysylltu â ni am gynlluniau y maent yn eu cynnal er budd y gymuned leol, gan efallai y gallwn roi cefnogaeth. Y dyddiad cau are gyfer ceisiadau fydd **dydd Gwener 6 Mawrth 2020**.

MYND YN WYRDDACH – Rydym bob amser yn ymdrechu i ostwng ein heffaith ar yr amgylchedd. Os hoffech ein helpu i ostwng ein defnydd o bapur drwy dderbyn bwletinâu drwy e-bost yn y dyfodol, cysylltwch â'n Swyddog Cydlynu â'r Cyhoedd, Georgie Davies yn georgie.davies@alungriffiths.co.uk



Byddem yn falch i gael eich sylwadau. Gallwch gysylltu drwy ein gwefan community.alungriffiths.co.uk neu drwy gysylltu â'n Swyddog Cydlynu â'r Cyhoedd Georgie Davies ar 0330 041 2183 neu e-bost yn georgie.davies@alungriffiths.co.uk

*Codir cyfraddau galw cenedlaethol are alwadau i'r rhif hwn a'i gynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau daear a ffonau symudol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



monmouthshire
sir fynwy

Gweithio mewn partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
Y Gronfa Targeddu Buddsoddi

Working in partnership with
Welsh Government
Targeted Regeneration
Investment Fund